OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 3366 (Cy.308)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *13 Rhagfyr 2006* |
| *Yn dod i rym - -* | *15 Rhagfyr 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 79 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 15 Rhagfyr 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru(**2**).

### Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006

**2.** Yn Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**3**) (Ffioedd Band 3 — Darparu Cyfarpar) hepgorer paragraff (i).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*
13 Rhagfyr 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1977 p.49.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 79 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), fel y'i diwygiwyd gan adran 66(5) o Ddeddf Iechyd 1999.
(**3**) O.S. 2006/491 (Cy. 60).
(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/491 (Cy.60)) ("Rheoliadau 2006").

Mae rheoliad 2 yn dileu'r cyfeiriad at "crowns in other materials" yn y rhestr o gyfarpar y ceir codi a chasglu ffi Band 3 ar ei gyfer yn Atodlen 3 i Reoliadau 2006.

Mae Arfarniad Rheoliadol llawn o'r effaith wedi'i baratoi o ran Rheoliadau 2006. Gellir cael copi o'r Arfarniad Rheoliadol gan y Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd Cymunedol, Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Iechyd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.